

**Arolygiad o dan Adran 28
Deddf Addysg 2005**

Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn

**Ysgol Gynradd Edern
Ffordd y Rhos
Edern
Pwllheli
Gwynedd
LL53 8YW**

Rhif yr Ysgol: 6612046

Dyddiad yr Arolygiad: 28 Ebrill 2008

gan

**Wil Williams
67644**

Dyddiad Cyhoeddi: 02 Gorffennaf 2008

O dan rif contract Estyn: 1117507

® Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2008: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Gynradd Edern fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd roi mwy o wybodaeth i rieni am berfformiad ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Gynradd Edern rhwng 28/04/08 a 30/04/09 gan dîm annibynnol o arolygwyr, wedi'u harwain gan Wil Williams. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Gradd 1	da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	nodweddion da'n gorbwyso diffygion
Gradd 4	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	llawer o ddiffygion pwysig

Mae tri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, ceir adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, ni cheir unrhyw adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, ceir adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, ceir adroddiadau ar bob pwnc hefyd.

Estyn sy'n penderfynu pa fath o arolygiad y bydd ysgol yn ei gael, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Mae pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgol newydd neu ysgol sydd wedi uno yn cael arolygiad llawn.

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **safonol**.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cynnwys	Tudalen
----------------	----------------

Cyd-destun	1
Crynodeb	1
Argymhellion	4
Safonau	5
Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	5
Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant	7
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	7
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	9
Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	11
Arweinyddiaeth a rheolaeth	12
Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	12
Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	13
Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	14
Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu	15
Dan bump oed	15
Saesneg	18
Gwyddoniaeth	19
Technoleg gwybodaeth	20
Hanes	21
Celf	22
Ymateb yr ysgol i'r arolygiad	22
Atodiadau	23
1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol	23
2 Data a dangosyddion ysgol	23
3 Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol	24
4 Sail dystiolaeth yr arolygiad	24
5 Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu	25

Cyd-destun

Natur y darparwr

- 1 Lleolir yr ysgol ar gyrion pentref Edern mewn ardal wledig, tua thair milltir o Nefyn, Gwynedd. Daw'r rhan fwyaf o'r disgyblion o bentrefi Edern a Dinas a'r ardal wledig gyfagos. Derbynnir plant i'r ysgol yn llawn amser yn y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.
- 2 Ar hyn o bryd, mynychir yr ysgol gan 52 o ddisgyblion llawn-amser ynghyd â 14 o blant meithrin rhan-amser. Fe'u haddysgir mewn tri dosbarth oedran cymysg gan ddau o athrawon llawn-amser ac un athrawes ran-amser.
- 3 Cymraeg yw'r brif iaith a siaredir yn y cartref gan oddeutu 80% y disgyblion ond creda'r ysgol fod bron pob disgybl bellach yn siarad Cymraeg i safon mamiaith.
- 4 Ystyria'r ysgol nad yw'r ardal a wasanaethir ganddi yn ffyniannus nag ychwaith o dan anfantais economaidd. Mae 18% o'r disgyblion gyda'r hawl i dderbyn cinio ysgol ddi-dâl sy'n gymharus â'r canrannau sirol a chenedlaethol.
- 5 Mae'r plant a dderbynnir i'r ysgol yn cwmpasu'r ystod gallu lawn, a dengys yr Aseiad Sylfaen fod lefelau gallu wrth dderbyn y plant yn debyg i'r cyfartaledd lleol. Mae oddeutu 29% o'r disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) sy'n sylweddol uwch na'r canrannau sirol a chenedlaethol. Mae dau ddisgybl â datganiad o ADY. Nid oes yr un disgybl y gofelir amdano gan yr awdurdod lleol.
- 6 Penodwyd yr holl staff addysgu gan gynnwys y pennaeth, i'w swyddi yn ystod y ddau dymor cyn yr arolygiad.
- 7 Ni fu unrhyw newidiadau arwyddocaol yn natur yr ysgol ers yr arolygwyd diwethaf yn nhymer yr haf 2002.

Comment [MSOffice1]: Mae un plentyn mewn gofal awdurdod yn yr ysgol ers 28/2/08 - roedd o yn yr uned iaith dros gyfnod yr arolygiad ond ar gofrestr yr ysgol.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

- 8 Mae blaenoriaethau a thargedau'r ysgol am y cyfnod 2008-09 yn cynnwys:
 - paratoi ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Chwricwlwm 2008;
 - gwella'r gyfundrefn hunan arfarnu;
 - gwella amgylchedd yr ysgol; a
 - chwblhau Cam 1 yr Ysgol Iach.

Crynodeb

- 9 Mae'r gwerthoedd a'r amcanion cyffredin a gydrennir gan staff, llywodraethwyr a rheini yn gryfder amlwg yn yr ysgol. Cyfranna'n sylweddol tuag at greu ymdeimlad eglur o bwrpas a chyfeiriad i ddatblygiad yr ysgol.
- 10 Gwnaed cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r pedwar Mater Allweddol a amlygwyd yn adroddiad arolygiad 2002.

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

- 11 Roedd hunan arfarniad yr ysgol yn cyfateb i ganfyddiadau'r tîm arolygu yn chwech o'r saith cwestiwn allweddol.

Cwestiwn Allweddol	Gradd arolygu
1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	Gradd 1
2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	Gradd 1
3 Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	Gradd 2
4 Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	Gradd 2
5 Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	Gradd 2
6 Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	Gradd 2
7 Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	Gradd 1

Safonau

- 12 Mae safonau cyflawniad yn y gwersi a arolygwyd fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
27%	73%	0%	0%	0%

- 13 Mae safonau'r disgyblion yn y gwersi a arsylwyd yn sylweddol uwch na thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) a hefyd yn cymharu'n dda gyda'r darlun cenedlaethol a gyhoeddwyd yn Adroddiad Blynyddol diweddaraf Prif Arolygwr Ei Mawrhydi (PAEM).
- 14 Mae safonau cyflawniad plant dan bump oed fel a ganlyn:

Meysydd dysgu	Meithrin	Derbyn
laith, llythrennedd a chyfathrebu	Gradd 1	Gradd 1
Datblygiad personol a chymdeithasol	Gradd 1	Gradd 1
Datblygiad mathemategol	Gradd 1	Gradd 1
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	Gradd 1	Gradd 1
Datblygiad creadigol	Gradd 1	Gradd 1
Datblygiad corfforol	Gradd 1	Gradd 1

- 15 Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.
- 16 Mae safonau cyflawniad yn y meysydd dysgu a'r pynciau a arolygwyd fel a ganlyn:

Meysydd dysgu	Cyfnod Allweddol 1	Cyfnod Allweddol 2
Saesneg	-	Gradd 2
Gwyddoniaeth	Gradd 2	Gradd 1
Technoleg gwybodaeth	Gradd 1	Gradd 1
Hanes	Gradd 2	Gradd 2
Celf	Gradd 1	Gradd 1

- 17 Mae disgyblion o bob oedran yn gwneud cynnydd da ym medrau allweddol iaith a chyfathrebu a defnyddio a chymhwyso mathemateg. Gwnânt gynnydd rhagorol yn eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).
- 18 Gwna'r holl ddisgyblion gynnydd da yn eu medrau dwyieithog. Erbyn CA2, mae pob disgybl yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn hyderus fel cyfrwng dysgu.
- 19 Yn ystod 2005-2007, bu canlyniadau asesiadau ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn bennaf ymhlith y 50% neu'r 25% uchaf o ysgolion tebyg. Ni fu unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched.
- 20 Gwna disgyblion o bob oedran gynnydd rhagorol yn eu dysgu. Dysgant wybodaeth a medrau newydd yn arbennig o hyderus ac maent yn trafod cryfderau a gwendidau eu gwaith mewn modd aeddfed a deallus.
- 21 Gwna disgyblion o bob oedran gynnydd rhagorol yn eu medrau personol a chymdeithasol. Cydweithiant yn rhwydd ym mhob sefyllfa gan arddangos parch a gofal am eraill.
- 22 Mae safonau ymddygiad ar draws yr ysgol yn rhagorol. Mae disgyblion yn ystyriol a chwrtais ac arddangos graddau uchel o hunanddisgyblaeth.
- 23 Mae ymwybyddiaeth disgyblion o'u cymuned ac o fyd gwaith yn dda.
- 24 Roedd cyfartaledd y presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyn yr arolygiad yn 94% sy'n gymharus â'r canrannau sirol a chenedlaethol.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

- 25 Barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
44%	56%	0%	0%	0%

- 26 Mae'r canrannau hyn yn llawer uwch na thargedau LICC a'r darlun cenedlaethol a adroddwyd gan PAEM yn ei hadroddiad blynyddol diweddar.
- 27 Mae nodweddion rhagorol i'r addysgu ym mhob dosbarth. Gwneir defnydd hynod effeithiol o'r ardal y tu allan ar gyfer symbylu'r dysgu plant dan bump ac mae disgwyliaidau'r holl athrawon o ran cynnydd disgyblion yn gyson uchel.
- 28 Mae trefniadaeth dda ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd disgyblion. Yn ddiweddar, sefydlwyd trefn gryno ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion ac adnabod unigolion a grwpiau sydd angen sylw ychwanegol ond nid yw eto'n weithredol drwy'r ysgol gyfan.
- 29 Mae'r ddarpariaeth addysgol yn bodloni anghenion yr holl ystod o ddisgyblion ac yn cynnig cwricwlwm sy'n eang, cytbwys ac yn wahaniaethol. Cyfoethogir y cwricwlwm yn dda gan raglen gynhwysfawr o weithgareddau allgyrsiol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg personol a chymdeithasol (ABCh) yn rhagorol ac mae wedi ei hintegreiddio'n llwyddiannus i bob agwedd o fywyd yr ysgol.
- 30 Mae partneriaeth dda gyda'r rhieni a chydag ysgolion cynradd ac uwchradd lleol.
- 31 Mae darpariaeth dda ar gyfer codi ymwybyddiaeth disgyblion o fyd gwaith a datblygu eu medrau menter. Mae'r sylw a roddir i ddatblygiad cynaliadwy yn dda gyda nodweddion rhagorol.

- 32 Mae ansawdd y gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr yn dda. Teimla'r disgyblion yn hyderus wrth fynd at aelod o staff i rannu pryder neu fynegi eu teimladau.
- 33 Mae'r cyngor ysgol yn gyfrwng effeithiol iawn ar gyfer sicrhau bod gan ddisgyblion lais yn rhediad yr ysgol.
- 34 Caiff disgyblion eu goruchwyllo'n ofalus ac mae gweithdrefnau cadarn ar gyfer cynnal asesiadau risg ac amddiffyn plant. Rhoddir sylw priodol ar gyfer datblygiad iachus a lles pob disgybl.
- 35 Mae dulliau trylwyr ac effeithiol ar gyfer adnabod anghenion dysgu disgyblion unigol yn fuan. Darperir cefnogaeth dda iddynt gan yr athrawes gefnogi a'r cynorthwyrwyr dysgu.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

- 36 Mae arweiniad meddylgar y pennaeth yn rhoi sylfaen gadarn i ddatblygiad yr ysgol. Hyrwyddir cyfleoedd cyfartal i bawb sy'n ymwneud â'r ysgol a sicheir y caiff eu llais ei glywed yn ystod y broses o wneud penderfyniadau allweddol.
- 37 Er bod y staff addysgu i gyd yn gymharol newydd i'r ysgol maent yn ysgwyddo cyfran dda o gyfrifoldebau. Hyd yma, nid yw eu rôl fel cydlynwyr pwnc wedi'i lawn ddatblygu.
- 38 Cyflawna'r llywodraethwyr eu gwaith yn gydwybodol iawn ac mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o anghenion yr ysgol.
- 39 Mae hunan arfarnu wedi'i hen sefydlu yn yr ysgol ac fe'i defnyddir yn effeithiol iawn i godi safonau a gwella ansawdd y ddarpariaeth.
- 40 Mae'r CDY yn ddogfen fanwl a phenodol sy'n rhoi cyfeiriad i waith yr ysgol. Ceir cysylltiad cryf rhwng blaenoriaethau'r cynllun a'r blaenoriaethau a ddeilliodd o'r hunan-arfarniad.
- 41 Mae nifer digonol o athrawon a chymorthyddion sydd â'r wybodaeth a'r arbenigedd angenrheidiol i addysgu holl agweddau'r cwricwlwm ar gyfer pob disgybl gan gynnwys plant dan bump.
- 42 Mae ansawdd ac ystod yr adnoddau dysgu yn dda ac maent wedi'u teilwra'n effeithiol i ddiwallu anghenion disgyblion o alluoedd a grwpiau oed gwahanol. Mae'r adeilad a'r tiroedd eang o gwmpas yr ysgol yn cynnig lleoliad rhagorol ar gyfer addysgu a dysgu disgyblion o bob oedran.
- 43 Caiff cyllid ac adnoddau'r ysgol eu rheoli'n dda gan ddarparu gwerth am arian.

Argymhellion

Er mwyn symud yr ysgol ymlaen, mae angen i'r corff llywodraethol a'r staff:

- A1 * ddatblygu ymhellach y drefn gryno a sefydlwyd yn ddiweddar ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion ac adnabod unigolion a grwpiau sydd angen sylw ychwanegol;
- A2 * ddatblygu ymhellach rôl cydlynwyr pwnc yn y trefniadau hunan arfarnu; a
- A3 * weithredu'n fwriadus i wella lefelau presenoldeb disgyblion.

*Blaenoriaethau yn CDY 2008-09

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau i ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn y mae'r ysgol am ei wneud ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodedb ohono, yn cael ei ddsbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

44 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

45 Mae safonau cyflawniad yn y gwersi a arolygwyd fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
27%	73%	0%	0%	0%

46 Mae safonau'r disgyblion yn y gwersi a arsylwyd yn sylweddol uwch na thargedau LICC sef erbyn 2010, bod ansawdd y dysgu yn radd 3 neu well mewn 98% o'r gwersi. Mae'r canrannau hyn hefyd yn cymharu'n dda gyda'r darlun cenedlaethol a gyhoeddwyd yn Adroddiad Blynyddol diweddaraf PAEM sy'n datgan fod y safonau yn Radd 1 mewn 10% o'r gwersi, yn Radd 2 mewn 70% o'r gwersi ac yn Radd 3 mewn 19% o'r gwersi.

47 Cyflawna disgyblion o bob oedran safonau da neu well yn y meysydd a'r pynciau a arolygwyd. Mae'r disgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd da tuag at gyflawni'r targedau a osodir ar eu cyfer.

48 Mae safonau cyflawniad plant dan bump oed fel a ganlyn:

Meysydd dysgu	Meithrin	Derbyn
Iaith, llythrennedd a chyfathrebu	Gradd 1	Gradd 1
Datblygiad personol a chymdeithasol	Gradd 1	Gradd 1
Datblygiad mathemategol	Gradd 1	Gradd 1
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	Gradd 1	Gradd 1
Datblygiad creadigol	Gradd 1	Gradd 1
Datblygiad corfforol	Gradd 1	Gradd 1

49 Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.

50 Mae safonau cyflawniad yn y meysydd dysgu a'r pynciau a arolygwyd fel a ganlyn:

Meysydd dysgu	Cyfnod Allweddol 1	Cyfnod Allweddol 2
Saesneg	-	Gradd 2
Gwyddoniaeth	Gradd 2	Gradd 1
Technoleg gwybodaeth	Gradd 1	Gradd 1
Hanes	Gradd 2	Gradd 2
Celf	Gradd 1	Gradd 1

- 51 Mae disgyblion o bob oedran yn gwneud cynnydd da ym medrau allweddol iaith a chyfathrebu a defnyddio a chymhwyso mathemateg. Gwnânt gynnydd rhagorol yn eu medrau TGCh.
- 52 Datblyga plant dan bump yn gynyddol yn eu gallu i ddefnyddio eu medrau llafar, llythrennedd a chyfathrebu mewn cyd-destunau cwricwlaidd. Maent yn gwrando'n astud yn ystod sesiynau torfol ac yn cyfathrebu'n effeithiol iawn gydag oedolion a phlant eraill. Trônt at lyfrau o'u gwirfodd ac mae nifer dda ohonynt wedi dechrau ysgrifennu'n annibynnol. Defnyddiant eu medrau mathemategol yn hyderus iawn wrth fesur, defnyddio arian a datrys problemau rhifol.
- 53 Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n hyderus ac effeithiol iawn mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol gyda nifer ohonynt yn mynegi eu hunain mewn iaith safonol. Mae ganddynt afael gadarn ar yr eirfa bynciol briodol a defnyddiant eu medrau darllen ac ysgrifennu'n dda wrth gywain gwybodaeth a chofnodi eu gwaith. Llwyddant yn dda i gymhwyso eu medrau rhif mewn nifer o gyd-destunau gwahanol ac maent yn datblygu medrau ymchwilio priodol.
- 54 Mae disgyblion o bob oedran yn ddefnyddwyr medrus iawn o TGCh. Dewisant y feddalwedd fwyaf priodol ar gyfer cyflawni tasg a gweithiant gydag elfen uchel iawn o annibyniaeth.
- 55 Gwna'r holl ddisgyblion gynnydd da yn eu medrau dwyieithog. Erbyn cyfnod allweddol 2, mae pob disgybl yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn hyderus fel cyfrwng dysgu.
- 56 Ar draws yr ysgol, defnyddia'r disgyblion eu medrau creadigol yn dda i archwilio sefyllfaoedd. Mae medrau datrys problemau hefyd yn datblygu'n dda.
- 57 Carfannau bychain o ddisgyblion a aseswyd ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn ystod y tair blynedd diwethaf. Mewn dwy o'r blynyddoedd, llwyddodd pob disgybl i gyrraedd Lefel 2 neu well mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth gyda nifer dda ohonynt yn cyrraedd Lefel 3 ym mhob pwnc. Roedd hanner y grŵp bychan o ddisgyblion a aseswyd yn 2007 gydag ADY ac effeithiodd hynny'n sylweddol ar berfformiad yr ysgol. Llwyddodd dau draean o'r fintai gyfan i gyrraedd Lefel 2 neu uwch yn y tri phwnc.
- 58 Yn 2007, roedd cyrhaeddiad disgyblion cyfnod allweddol 2 yn rhagori ar y perfformiad lleol a chenedlaethol mewn Cymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth ond ychydig yn is mewn mathemateg. Ar gyfartaledd, llwyddodd dros hanner y disgyblion i gyrraedd Lefel 5 ym mhob pwnc.
- 59 Yn ystod 2005 - 2007, bu canlyniadau asesiadau ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn bennaf ymhlith y 50% neu'r 25% uchaf o ysgolion a chanddynt ganran tebyg o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Ni fu unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched.
- 60 Mae'r cynnydd a wna disgyblion o bob oedran wrth ddysgu yn dda gyda nodweddion rhagorol. Dysgant wybodaeth a medrau newydd yn arbennig o hyderus ac maent yn eu defnyddio'n effeithiol iawn mewn sefyllfaoedd newydd. Maent yn dysgu o'u camgymeriadau ac yn trafod cryfderau a gwendidau eu gwaith mewn modd aeddfed a deallus. Erbyn cyfnod allweddol 2, mae nifer dda o'r disgyblion yn cynnig awgrymiadau synhwyrol ynglŷn â sut i wella eu gwaith.

- 61 Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gweithio ar lefel uchaf eu gallu. Ymdrechant i wneud eu gorau gan ganolbwyntio a dyfalbarhau ar eu tasgau dros gyfnodau estynedig. Maent yn effro i holi a gofyn cwestiynau a gweithiant yn gynhyrchiol gan ddefnyddio'u hamser yn effeithiol.
- 62 Gwna disgyblion o bob oedran gynnydd rhagorol yn eu medrau personol a chymdeithasol. Cydweithiant yn rhwydd ym mhob sefyllfa gan arddangos parch a gofal am eraill. Wrth ymwneud â thasgau grŵp, gwrandawant yn astud ar farn ei gilydd gan ddod i gonsensws barn ynglŷn â'r ffordd orau i symud y gwaith yn ei flaen.
- 63 Mae safonau ymddygiad ar draws yr ysgol yn rhagorol. Mae disgyblion yn ystyriol a chwrtais iawn yn eu hymwneud â'i gilydd ac oedolion. Arddangosant raddau uchel o hunanddisgyblaeth a chymerant gyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'u gwaith. Mae gonestrwydd a thegwch yn egwyddorion amlwg iawn yn eu hymddygiad a'u hagweddau. Cyfranna hyn yn sylweddol tuag at greu ethos dysgu dymunol ac ysgogol.
- 64 Gwelir datblygiad da yng ngallu disgyblion i weithio'n annibynnol. O oedran cynnar, maent yn gwneud penderfyniadau trostynt eu hunain wrth ddewis gweithgareddau ac yn gweithio heb fod yn rhy ddibynnol am gymorth oedolion. Erbyn cyfnod allweddol 2, mae eu medrau astudio a'u gallu i drefnu eu gwaith yn dangos cynnydd da ac yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at wella eu medrau dysgu.
- 65 Ar draws yr ysgol, mae'r disgyblion yn parchu'r amrywiaeth credoau, agweddau a thraddodiadau diwylliannol a chymdeithasol eraill ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o faterion cyfleoedd cyfartal ac o degwch.
- 66 Mae'r ymweliadau cyson a wna disgyblion â'r gymuned leol a lleoedd eraill o ddiddordeb sy'n gysylltiedig â gwaith dosbarth yn cyfrannu'n sylweddol tuag at ehangu eu dealltwriaeth o'u cymuned eu hunain a byd gwaith.
- 67 Roedd cyfartaledd y presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyn yr arolygiad dros 94% sy'n gymharus â'r canrannau sirol a chenedlaethol. Mae'r disgyblion i gyd yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac maent yn cyrraedd yn brydlon ar ddechrau'r diwrnod.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

- 68 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
- 69 Barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
44%	56%	0%	0%	0%

- 70 Mae'r canrannau hyn yn llawer uwch na thargedau LICC sef erbyn 2010, bod ansawdd yr addysgu yn radd 2 neu well mewn 80% o'r gwersi. Maent hefyd yn sylweddol uwch na'r darlun cenedlaethol a adroddwyd gan PAEM yn ei

adroddiad blynyddol diweddar sy'n datgan fod ansawdd addysgu yn Radd 1 mewn 14% o'r gwersi, yn Radd 2 mewn 66% o'r gwersi ac yn Radd 3 mewn 18% o'r gwersi.

71 Mae nodweddion rhagorol yr addysgu yn cynnwys:

- defnydd hynod effeithiol o'r ardal y tu allan ar gyfer gosod tasgau heriol a chyffrous i symbylu dysgu plant dan bump a disgyblion cyfnod allweddol 1;
- defnydd creadigol o amrediad eang o adnoddau yn arbennig TGCh i ddatblygu a symbylu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau'r disgyblion ar draws y cwricwlwm;
- cyflwyniadau hynod o ddiddorol mewn gwersi gwyddoniaeth a hanes sy'n hoelio sylw disgyblion ac yn sicrhau eu hymglymiad llwyr i'r maes dan sylw;
- disgwyliadau uchel yn arbennig mewn celf, sy'n llwyddo i gyfleu cysyniadau haniaethol cymhleth; a
- chwestiynu celfydd sy'n herio'r syniadau'r disgyblion ac yn eu hannog i feddwl drostynt eu hunain.

72 Mae nodweddion da yr addysgu yn cynnwys:

- modelu ieithyddol o ansawdd uchel ym mhob dosbarth;
- gwersi a gynlluniwyd yn ofalus gyda meini prawf llwyddiant wedi eu rhannu'n glir a sesiwn glo effeithiol;
- arbenigedd pynciol a ddefnyddir yn dda i hybu addysgu a dysgu effeithiol;
- ymyrraeth sensitif a chynhaliaeth ofalus i gefnogi ac annog pob disgybl gyda'i ddysgu, beth bynnag fo'i allu; a
- disgwyliadau uchel a chyson ar draws yr ysgol o ran perthynas, agwedd tuag at waith ac ymddygiad.

73 Mae ansawdd perthnasau yn uchel a rhoddir sylw da i anghenion dysgu ac ieithyddol pob disgybl. Ni wahaniaethir ar sail rhyw na hil.

74 Gwna'r cynorthwywyr dosbarth gyfraniad eithriadol o werthfawr i ansawdd yr addysgu a'r dysgu drwy'r ysgol. Maent yn cydweithio'n glos gyda'r athrawon ac yn ymyrryd yn sensitif er mwyn galluogi'r disgyblion i symud ymlaen gyda'u dysgu.

75 Mae'r athrawon wedi ymrwymo'n llwyr i hybu cyfle cyfartal ac maent yn sicrhau bod bob disgybl yn cael cydraddoldeb mynediad i bob agwedd o waith dosbarth a bywyd yr ysgol.

76 Mae trefniadaeth dda ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd disgyblion.

77 Mae ansawdd yr Asesu Sylfaen yn dda. Caiff y plant eu hasesu yn y chwe maes dysgu drwy gydol eu cyfnod yn y blynyddoedd cynnar a defnyddir y wybodaeth yn effeithiol i fonitro eu cynnydd a chynllunio ar eu cyfer.

78 Mae gweithdrefnau manwl yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd yn holl bynciau'r cwricwlwm. Gwneir defnydd effeithiol o brofion safonedig er mwyn cefnogi asesiadau athrawon.

- 79 Yn ddiweddar, sefydlwyd trefn gryno ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion ac adnabod unigolion a grwpiau sydd angen sylw ychwanegol. Er bod hon yn drefn effeithiol nid yw eto'n weithredol drwy'r ysgol gyfan.
- 80 Mae'r portffolios pwnc sy'n cynnwys esiamplau o waith disgyblion wedi'u lefelu, yn offerynnau effeithiol ar gyfer safoni a chymedroli asesiadau athrawon.
- 81 Caiff gwaith disgyblion ei farcio'n rheolaidd a chynhwysir awgrymiadau defnyddiol ar gyfer gwelliant. Sicrheir bod disgyblion yn chwarae rôl weithredol yn y broses o osod eu targedau personol, fodd bynnag, tuedda'r targedau ar adegau i fod yn rhy gynhwysfawr ac yn anodd eu cyrraedd.
- 82 Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni o ansawdd da ac yn cwrdd â'r gofynion statudol. Maent yn amlinellu medrau a chyflawniadau'r disgyblion ym mhob pwnc yn glir ac yn cynnwys manylion perthnasol ynghylch datblygiad personol yr unigolyn.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

- 83 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
- 84 Mae'r ddarpariaeth addysgol yn bodloni anghenion yr holl ystod o ddisgyblion ac yn cynnig cwricwlwm sy'n eang, cytbwys ac yn wahaniaethol. Mae'n cydymffurfio llwyr â'r gofynion cyfreithiol.
- 85 Mae ansawdd y cynllunio ar gyfer plant dan bump yn rhagorol. Darperir ystod o brofiadau symbylol a diddorol sydd wedi'u trefnu'n arbennig o dda ac sy'n arddangos ymwybyddiaeth amlwg o egwyddorion y Cyfnod Sylfaen.
- 86 Yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, mae'r cynlluniau gwaith ynghyd â'r cynlluniau tymhorol ar gyfer y pum maes a arolygwyd i gyd o ansawdd da ac yn rhoi arweiniad clir i'r athrawon. Maent yn cynnwys meini prawf llwyddiant ar gyfer gwersi unigol ac yn nodi'n effeithiol y cyfleodd ar gyfer datblygu'r medrau sylfaenol a medrau allweddol. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu TGCh ar draws holl feysydd y cwricwlwm yn rhagorol.
- 87 Mae ethos Cymreig cadarn iawn drwy'r ysgol. Rhoddir sylw pwrpasol i'r Cwricwlwm Cymreig o fewn nifer o feysydd y cwricwlwm ac yn ogystal, darperir cyfleoedd niferus i'r disgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth a'u hymwybyddiaeth o ddiwylliannau eraill. Hyrwyddir medrau dwyieithog disgyblion yn llwyddiannus.
- 88 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer ABCh yn rhagorol ac wedi ei integreiddio'n llwyddiannus i bob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae cyfleoedd strwythuredig megis yn ystod amser cylch yn annog disgyblion i drafod materion sensitif mewn amgylchedd cynhaliol.
- 89 Mae'r ddarpariaeth y tu allan i oriau arferol yr ysgol yn dda. Rhoddir cyfle cyfartal i bob disgybl gymryd rhan mewn chwaraeon cystadleuol, eisteddfodau lleol a nifer dda o weithgareddau addysgol, diwylliannol a chymunedol eraill. Trefnir ymweliadau pwrpasol i fannau sy'n gysylltiedig ag astudiaethau dosbarth a gwneir cyfraniad pwysig i addysg disgyblion gan ymwelwyr â'r ysgol. Mae'r

profiadau hyn yn cyfoethogi profiadau addysgol disgyblion ac yn cyfrannu'n dda tuag at eu datblygiad personol.

- 90 Cefnogir y gwaith cartref, a ddarperir yn rheolaidd yn dda gan ddisgyblion a rhieni. Mae'r tasgau yn atgyfnerthu gwaith y dosbarthiadau ac yn cyfrannu'n dda tuag at gynnydd addysgol disgyblion.
- 91 Hyrwyddir datblygiad ysbrydol disgyblion yn rhagorol. Mae'r sesiynau addoli ar y cyd o safon uchel iawn ac yn cynnig cyfleoedd arbennig o dda i ddisgyblion fyfyrion dawel a meddylgar ar faterion pwysig sy'n effeithio ar eu bywydau.
- 92 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo datblygiad moesol a chymdeithasol disgyblion hefyd yn rhagorol. Rhoddir anogaeth gyson i ddisgyblion fod yn ofalgar tuag at eraill boed hynny y tu mewn neu'r tu allan i'r ystafell dosbarth. Mae'r arfer o roi cyfrifoldeb i'r disgyblion hynaf gymryd gofal dros y rhai ieuengaf yn ystod y dydd yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at yr agwedd hon. Mae'r 'Bydis Buarth' yn ysgwyddo eu cyfrifoldebau hwythau gyda balchder yn ystod amser chwarae ac amser cinio.
- 93 Mae partneriaeth dda gyda'r rhieni ac adlewyrchwyd hyn yn ymateb cadarnhaol iawn y rhieni drwy'r holiaduron ac yn y cyfarfod cyn-arolygiad. Mae'r rhieni yn barod iawn i gefnogi'r ysgol ac yn ddiweddar buont yn weithgar iawn yn cynorthwyo i sefydlu'r ardal chwarae tu allan ar gyfer plant dan bump.
- 94 Mae safon cyfathrebu'r ysgol gyda'r cartref yn effeithiol iawn. Mae'r Cytundeb Cartref/Ysgol yn weithredol ac mae'r Llawlyfr i Rieni o ansawdd da ac yn ymateb i'r holl ofynion statudol.
- 95 Mae perthynas waith gynhyrchiol gydag ysgolion cynradd eraill y dalgylch gyda'r athrawon yn rhannu sesiynau hyfforddiant ac yn cydweithio ar nifer o brosiectau datblygol. Mae trefniadaeth trosglwyddo a gweithgareddau pontio effeithiol gyda'r ysgol uwchradd leol.
- 96 Mae darpariaeth dda ar gyfer codi ymwybyddiaeth disgyblion o fyd gwaith ac mae cydweithio agos rhwng yr ysgol a nifer o fusnesau lleol.
- 97 Rhoddir sylw da i ddatblygu medrau menter disgyblion. Hwy sy'n gyfrifol am gadw cyfrifon y siop ffrwythau ac am ofalu bod y busnes yn talu'i ffordd.
- 98 Mae'r sylw a roddir i ddatblygiad cynaliadwy yn dda gyda nodweddion rhagorol. Mae'r ysgol yn gweithio tuag at gwblhau gofynion gwobr arian Yr Ysgol Werdd ac wedi cynnal nifer helaeth o weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r maes. Yn ddiweddar, gwnaed dadansoddiad manwl o'r gwahanol fathau o wastraff a waredir yn yr ysgol a bu'r disgyblion yn casglu sbwriel ar y traeth. Mae'r ysgol yn gweithredu mewn modd cynaliadwy ac wedi sefydlu nifer o fesurau ar gyfer arbed ynni ac osgoi gwastraff.
- 99 Mae darpariaeth dda ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd eang. Bydd disgyblion yn cyfrannu'n gyson at wahanol elusennau ac yn rhoi sylw manwl i ddinasyddiaeth mewn gwersi daearyddiaeth.
- 100 Gosodir sylfaeni cadarn ar gyfer dysgu gydol oes trwy sicrhau bod disgyblion yn meithrin sgiliau megis dwyieithrwydd, annibyniaeth a datrys problemau fydd yn eu gwneud yn fwy cyfrifol am eu dysgu eu hunain wrth iddynt dyfu i fyny.

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

- 101 Nid yw canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r Radd 1 a ddyfarnwyd gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu. Er bod y tîm arolygu yn cytuno gyda'r ysgol bod rhai nodweddion rhagorol yn y ddarpariaeth bernir nad oes digon ohonynt i deilyngu Gradd 1.
- 102 Mae'r parch a ddangosir tuag at bob disgybl a'r ffocws a roddir ar ddatblygu ymwybyddiaeth o anghenion eraill yn nodwedd gref ym mywyd yr ysgol. Gwerthfawrogir pob unigolyn a llwyddir i greu amgylchedd ddysgu ac addysgu cynnes a chyfeillgar. Cynhwysir pob disgybl o bob oedran a gallu yn llawn ym mywyd a gwaith yr ysgol.
- 103 Cydweithia'r ysgol yn agos gyda rhieni, gofalwyr ac asiantaethau'r AALI mewn achosion sy'n ymwneud â gofal a lles disgyblion. Dywed rhieni bod staff yn adnabod eu plant yn dda a'u bod yn ofalus iawn ohonynt.
- 104 Mae gweithdrefnau effeithiol ar gyfer sicrhau bod plant yn ymgartrefu yn y dosbarth meithrin yn gyflym. Maent yn teimlo'n ddiogel yn y dosbarth ac yn derbyn cefnogaeth dda iawn gan athrawon, staff cefnogol a disgyblion hynaf yr ysgol.
- 105 Teimla'r disgyblion yn hyderus wrth fynd at aelod o staff i rannu pryder neu fynegi eu teimladau. Cânt gyfleoedd da iawn i leisio pryder neu gonsyrn drwy gysylltu un ai â'r cyngor ysgol neu un o'r llysgenhadon.
- 106 Mae'r cyngor ysgol yn gyfrwng effeithiol iawn ar gyfer sicrhau bod gan ddisgyblion lais yn rhediad yr ysgol. Mae'n rheoli ei gyllideb ei hun, yn gwneud penderfyniadau pwysig ynghylch bywyd pob dydd yr ysgol ac yn cadw cyswllt agos gyda'r corff llywodraethu.
- 107 Caiff y cyfnodau cofrestru eu gweinyddu'n briodol ac mae gweithdrefnau addas i sicrhau fod presenoldeb yn cael ei fonitro'n ofalus.
- 108 Mae gweithdrefnau pendant megis 'Bydis Buarth' a chynllun Webster Stratton yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at hybu agweddau ac ymddygiad positif.
- 109 Mae diogelwch disgyblion yn flaenoriaeth yn yr ysgol. Caiff y disgyblion eu goruchwyllo'n ofalus yn ystod amser chwarae ac amser cinio. Mae gweithdrefnau cadarn ar gyfer cynnal asesiadau risg.
- 110 Mae'r polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer amddiffyn plant yn eglur i bawb. Gan y pennaeth y mae'r cyfrifoldeb cyffredinol a chaiff gefnogaeth briodol a chysylltiadau da gyda'r gwasanaethau perthnasol.
- 111 Rhoddir sylw priodol ar gyfer datblygiad iachus a lles pob disgybl. Mae'r ysgol wedi cwblhau cam cyntaf menter 'Yr Ysgol Iach' ac yn hybu byw'n iach drwy ddarparu siop ffrwythau a ffynnon ddŵr o fewn yr ysgol. Mae'r gemau buarth a chlybiau megis Campau'r Ddraig yn cyfrannu'n dda tuag at godi lefelau ffitrwydd disgyblion.
- 112 Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer ADY yn dda ac yn cydymffurfio â gofynion y Cod Ymarfer.

- 113 Mae dulliau trylwyr ac effeithiol ar gyfer adnabod anghenion dysgu disgyblion unigol yn fuan a darperir cefnogaeth dda iddynt gan yr athrawes gefnogi a'r cynorthwyr dysgu. Mae'r cynlluniau addysg unigol (CAU) o ansawdd da ac yn cynnwys targedau clir ar gyfer mesur cynnydd.
- 114 Cynhwysir barn y rhieni wrth asesu'r disgyblion ac wrth osod targedau ar eu cyfer.
- 115 Mae nodweddion megis tegwch a chyfleoedd cyfartal i bawb yn elfen gref iawn yn yr ysgol gyda merched a bechgyn yn eu trin yn gyfartal. Mae polisi a strategaethau effeithiol ar gyfer meithrin agweddau cadarnhaol megis cydnabod amrywiaeth a hyrwyddo cydraddoldeb ar sail hil.
- 116 Mae gweithdrefnau effeithiol ar gyfer dileu unrhyw ymddygiad gormesol a bwlio. Mae'r holl staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn eu trin yn ofalgar a sensitif.
- 117 Mae'r ysgol wedi ymateb yn effeithiol i sicrhau bod disgybl sydd ag anableddau corfforol yn cael eu trin yr un mor ffafriol ag unrhyw ddisgybl arall. Mae polisi hygyrchedd priodol ynghyd â Chynllun Cydraddoldeb i'r Anabl a chynllun gweithredu yn weithredol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

- 118 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
- 119 Mae arweiniad meddylgar y pennaeth yn rhoi sylfaen gadarn i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddo ddisgwyliadau uchel o ran cyflawniadau disgyblion ac mae'n arwain y staff a llywodraethwyr mewn ffordd bwrpasol gan greu ysbryd tîm cryf yn yr ysgol.
- 120 Mae'r gwerthoedd a'r amcanion cyffredin a gydrennir gan staff, llywodraethwyr a rheini yn gryfder amlwg yn yr ysgol. Cyfranna'n sylweddol tuag at greu ymdeimlad eglur o bwrpas a chyfeiriad i ddatblygiad yr ysgol.
- 121 Mabwysiadwyd yr holl bolisïau rheolaethol gofynnol gan y corff llywodraethu. Cânt eu gweithredu'n gydwybodol ac effeithiol gan staff a llywodraethwyr. Gwerthfawrogir cyfraniad pob unigolyn yn ystod o broses o lunio polisïau a chynlluniau gwelliant.
- 122 Hyrwyddir cyfleoedd cyfartal i bawb sy'n ymwneud â'r ysgol a sicheir y caiff eu llais ei glywed yn ystod y broses o wneud penderfyniadau allweddol.
- 123 Mae'r staff addysgu i gyd yn gymharol newydd i'r ysgol ac yn ysgwyddo cyfran dda o gyfrifoldebau. Hyd yma, nid yw eu rôl fel cydlynwyr pwnc wedi'i lawn ddatblygu.
- 124 Rhoddir lle addas yn rhaglen waith yr ysgol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys achrediad Marc Safon Yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, yr Ysgol Werdd a cham cyntaf Yr Ysgol Iach.

- 125 Lluniwyd nifer o bartneriaethau cynhyrchiol gyda darparwyr addysg a hyfforddiant lleol ac mae'r ysgol yn cydweithio'n glos gydag ysgolion cynradd eraill y dalgylch.
- 126 Mae trefniadau manwl ar gyfer gosod targedau ysgol gyfan ar ddiwedd y cyfnodau allweddol. Seilir y targedau ar asesiad manwl o gyflawniadau disgyblion dros gyfnod ac ar eu perfformiad tebygol ar ddiwedd y cyfnod allweddol. Mae'r targedau hyn yn uchelgeisiol a chyraeddadwy ac yn rhoi nodau clir i athrawon a disgyblion.
- 127 Mae trefniadau addas ar gyfer monitro perfformiad staff a chytuno ar amcanion gwelliant. Rhoddir ystyriaeth fanwl i anghenion personol staff ynghyd ag i flaenoriaethau'r CDY wrth bennu rhaglen datblygiad proffesiynol ar eu cyfer.
- 128 Cyflawna'r pennaeth ei rôl monitro perfformiad staff yn effeithiol. Bydd yn ymweld â dosbarthiadau yn rheolaidd, arfarnu ansawdd yr addysgu a'r dysgu ac yn rhannu ei ganfyddiadau gyda'r athrawon.
- 129 Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau. Cyflawnant eu gwaith yn gydwobodol iawn a thrwy gydweithio'n agos gyda'r pennaeth, rhoddant gyfeiriad strategol i ddatblygiad yr ysgol. Ysgwyddant gyfran dda o gyfrifoldebau a chwaraeant rôl allweddol yn y broses o lunio a monitro'r CDY. Cymerant eu rôl fel cyfaill beirniadol i'r ysgol o ddifrif ac mae ganddynt strategaethau effeithiol ar gyfer monitro ac arfarnu safonau ac ansawdd y dysgu a'r addysgu.
- 130 Cyflawnant yr holl gyfrifoldebau statudol a osodir arnynt yn drylwyr.

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

- 131 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
- 132 Mae hunan-arfarnu wedi'i hen sefydlu yn yr ysgol ac fe'i defnyddir yn effeithiol iawn gan y pennaeth a'r staff i ddynodi cryfderau a diffygion mewn perfformiad a darpariaeth ac er mwyn gwneud gwelliannau pellach. Roedd arfarniadau'r ysgol yn ei hunan-arfarniad yn cyfateb i ganfyddiadau'r tîm arolygu yn chwech o'r saith cwestiwn allweddol.
- 133 Mae'r gweithdrefnau hunan-arfarnu yn gynhwysfawr a systematig ac fe ganolbwyntiant yn benodol ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion ac ar ansawdd y ddarpariaeth addysgol. Cesglir tystiolaeth o nifer o ffynonellau gwahanol, gan gynnwys gwaith disgyblion, dogfennau cynllunio ac arsylwi gwersi yn ystod y broses hunan-arfarnu. Gofala'r cynlluniau gweithredu manwl sy'n dilyn y cymerir camau buan i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a amlygir.
- 134 Gwneir defnydd effeithiol o'r data meintiol sy'n deillio o asesiadau a phroffion safonedig er mwyn adnabod tueddiadau a chymharu perfformiad yr ysgol gydag ysgol debyg.
- 135 Trwy holiaduron a thrafodaethau pwrpasol, caiff rhieni gyfleoedd niferus i leisio barn ar wahanol agweddau o fywyd yr ysgol a'r ddarpariaeth addysgol.

Enghraifft dda o hyn yw'r modd yr eglurwyd egwyddorion y Cyfnod Sylfaen i'r rhieni cyn cychwyn ar y gwaith o ddarparu'r ardal y tu allan i'r plant dan bump.

- 136 Caiff aelodau'r cyngor ysgol gyfleoedd da i ddylanwadu ar brosesau gwneud penderfyniadau, yn enwedig felly ar agweddau ar fywyd yr ysgol a chanddynt effaith uniongyrchol ar eu profiadau hwy.
- 137 Mae ansawdd yr adroddiad hunan-arfarnu yn dda. Mae'n rhoi sylw manwl i holl feini prawf y fframwaith arolygu ac yn canolbwyntio'n briodol ar arfarnu safonau cyflawniad ac ansawdd y ddarpariaeth. Mae'n cynnwys cryfderau'r ysgol ynghyd â'r agweddau hynny sydd angen datblygiad pellach. Dengys tystiolaeth yr arolygiad ei fod yn wrthrychol ac yn agos i'w le.
- 138 Mae'r CDY yn ddogfen fanwl a phenodol sy'n rhoi ymdeimlad clir o gyfeiriad i waith yr ysgol. Ceir cysylltiad cryf rhwng blaenoriaethau'r cynllun a'r blaenoriaethau a ddeilliodd o'r hunan-arfarniad. Cynllunnir datblygiadau'n ofalus, nodir y deilliannau disgwylidig, priodolir cyfrifoldebau i unigolion a dynodir yr adnoddau angenrheidiol.
- 139 Mae'r arfer o adolygu a diweddarau'r CDY yn barhaus bob tymor yn sicrhau ei bod yn ddogfen weithiol sy'n gwneud cryn gyfraniad i wella'r ysgol.
- 140 Mae tystiolaeth yr arolygiad yn cefnogi'r farn fod hunan-arfarnu dros gyfnod o flynyddoedd wedi arwain at welliannau arwyddocaol mewn safonau ac yn ansawdd y ddarpariaeth addysgol.
- 141 Gwnaed cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r pedwar Mater Allweddol a amlygwyd yn adroddiad arolygiad 2002. Llwyddwyd i gynnal y safonau da iawn a ganfuwyd mewn pynciau megis technoleg gwybodaeth a gwelwyd gwelliant arwyddocaol mewn gwyddoniaeth a chelf. Bellach mae llawlyfr yr ysgol yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol ac mae gwell cysondeb rhwng addoliadau ar y cyd ysgol gyfan a rhai dosbarth. Mae'r ysgol yn parhau i roi sylw i ddatblygu gwerthfawrogiad disgyblion o ddiwylliannau rhyngwladol.

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

- 142 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
- 143 Mae nifer digonol o athrawon a chanddynt y wybodaeth a'r arbenigedd angenrheidiol i addysgu holl agweddau'r cwricwlwm ar gyfer pob disgybl gan gynnwys plant dan bump. Fe'u cefnogir gan staff cynnal arbennig o fedrus sydd â'r gallu, profiad a'r cymwysterau i weithio'n annibynnol gyda grwpiau o ddisgyblion ac unigolion. Mae hon yn nodwedd ragorol sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at ansawdd uchel y dysgu a'r addysgu.
- 144 Bu gwariant sylweddol ar gynyddu'r ddarpariaeth adnoddau yn ystod y flwyddyn aeth heibio. Mae ansawdd ac ystod yr adnoddau'n dda ac maent wedi'u teilwra'n effeithiol i ddiwallu anghenion disgyblion o alluoedd a grwpiau oed gwahanol. Caiff y llyfrgell llawn adnoddau ei defnyddio'n rheolaidd gan ddisgyblion a gwneir defnydd effeithiol o'r arddangosiadau deniadol o waith

disgyblion ar waliau'r ystafelloedd dosbarth ac ar y rhodfeydd yn adnoddau addysgu a dysgu. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer plant dan bump a TGCh yn rhagorol ac yn arwain at safonau uchel.

- 145 Mae'r adeilad a'r tiroedd eang o gwmpas yr ysgol yn cynnig lleoliad rhagorol ar gyfer addysgu a dysgu ac yn adnoddau gwerthfawr i ddisgyblion o bob oedran. Mae'r ardal y tu allan a grëwyd gyda chymorth a chyfraniad ariannol rhieni yn nodweddiadol; mae'n symbylu'r plant dan bump i gymryd diddordeb yn eu hamgylchfyd ac yn cynnig lleoliad eithriadol iddynt ddysgu trwy brofiadau uniongyrchol.
- 146 Mae safonau cynnal a chadw'r adeiladau a'r tiroedd yn uchel ac mae amgylchedd cyffredinol yr ysgol yn lân a deniadol ac fe'i defnyddir yn dda. Mae'r adeilad yn hygyrch i bob dysgwr ac mae trefniadau diogelwch effeithiol ar gyfer rheoli traffig o fewn ffiniau'r ysgol.
- 147 Gwneir defnydd effeithiol o'r staff addysgu a chynnal. Mae athrawon yn diweddarau eu medrau a'u gwybodaeth yn rheolaidd trwy fynychu sesiynau hyfforddiant sy'n cael eu cyfateb yn dda i anghenion a diddordebau athrawon unigol ac i flaenoriaethau'r ysgol. Mae staff cynnal hefyd yn elwa o fynychu ystod eang o hyfforddiant.
- 148 Mae'r ethos cadarnhaol yn yr ysgol sy'n annog staff i gyfnewid syniadau ac i gynnal a chefnogi ei gilydd yn gwneud cryn gyfraniad at alluogi athrawon a staff cynnal i rannu a datblygu eu harbenigedd pynciol yn effeithiol.
- 149 Defnyddir yr amser a neilltuir i athrawon ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu yn effeithiol iawn drwy fanteisio ar arbenigedd cymhorthydd dysgu i addysgu cerddoriaeth ar draws yr ysgol. Barna'r ysgol bod y trefniadau hyn wedi arwain at godi safonau cerddoriaeth ym mhob dosbarth drwy'r ysgol.
- 150 Rhoddwyd sylw effeithiol i gytundeb llwyth gwaith athrawon ac i ofynion ail-fodelu'r gweithlu trwy ddefnyddio'r cyllid i gryfhau addysgu mewn cerdd ac addysg gorfforol.
- 151 Caiff cyllid ei reoli'n dda a chaiff adnoddau gan gynnwys staffio, eu hadolygu'n gyson. Mae rheolaeth gyllidebol yn dynn ac mae'r corff llywodraethol yn monitro gwariant yn drwyadl er mwyn sicrhau cost effeithiolrwydd. Cysylltir penderfyniadau gwariant yn effeithiol â'r blaenoriaethau a nodir yn y CDY.
- 152 Mae'r ysgol yn darparu gwerth am arian.

Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

Plant o dan 5 oed

Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu

Meithrin a Derbyn: Gradd 1 – Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

- 153 Mae'r plant meithrin a derbyn yn gwrando'n astud ac yn siarad am eu profiadau'n hyderus mewn iaith raenus ac estynedig. Defnyddiant ystod dda o eiriau ac ymadroddion i fynegi eu syniadau.

154 Gwna'r plant derbyn gynnydd rhagorol yn eu medrau darllen. Maent yn ymdrin â llyfr yn gywir ac yn gwybod bod ystyr i eiriau a lluniau. Mae nifer dda wedi dechrau darllen yn annibynnol.

Nodweddion da

155 Defnyddia'r disgyblion iaith briodol yn ystod chwarae ddychmygus yn y tŷ bach twt ac yn eu gweithgareddau chwarae rôl.

156 Mae'r plant derbyn yn arddangos safonau da wrth ymateb ar lafar i stori ac wrth ysgrifennu'n rhydd yn y gornel ysgrifennu. Mae eu gallu i ymdrin â thechnoleg gwybodaeth i gefnogi'r gwaith ieithyddol mewn gwaith pâr yn dda iawn.

Diffygion

157 Nid oes diffygion pwysig.

Datblygiad Personol a Chymdeithasol

Meithrin a Derbyn: Gradd 1 – Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

158 Mae'r ffordd aeddfed a disgybledig mae'r plant dan 5 yn ymgymryd â thasgau a gwaith grŵp yn nodwedd rhagorol.

159 Mae eu gallu i ymateb i stori yn ymwneud â ffrindiau mewn ffordd synhwyrol ac aeddfed yn nodwedd rhagorol. Mewn sesiynau amser clych dangosant barch a gofal mawr tuag at ei gilydd a mynegant eu teimladau yn onest a chlir. Dysgant aros eu tro wrth ddilyn gweithgareddau ac arferant hunanreolaeth yn effeithiol iawn.

Nodweddion da

160 Mae plant o bob oedran yn ffurfio perthnasau cadarnhaol iawn â'i gilydd, gydag oedolion a chyda disgyblion hŷn yn yr ysgol.

161 Mae plant meithrin a derbyn yn canolbwyntio ar eu tasgau am gyfnodau estynedig. Dangosant elfen uchel o annibyniaeth wrth ddethol gweithgareddau neu adnoddau o'u dewis hwy. Maent yn archwilio ac arbrofi'n hyderus gyda chyfleoedd dysgu newydd.

Diffygion

162 Nid oes diffygion pwysig.

Datblygiad Mathemategol

Meithrin a Derbyn: Gradd 1 – Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

163 Mae'r gweithgareddau a gyflawna plant meithrin a derbyn yn y cwt mathemateg y tu allan yn arddangos safonau rhagorol. Defnyddiant iaith fathemategol mewn cyd-destunau priodol ac maent yn gelfydd iawn wrth ddefnyddio llinell rhif a gemau mathemategol.

164 Mae plant y derbyn yn adnabod, cyfrif a threfnu rhifau hyd at ugain gan arddangos dealltwriaeth gadarn iawn o gysyniadau mathemategol fel 'llai na' a 'mwy na'. Maent yn cymharu, didoli a threfnu gwrthrychau cyfarwydd gyda chywirdeb cynyddol. Mae'r rhain yn nodweddion rhagorol.

Nodweddion da

- 165 Mae'r plant meithrin wedi dysgu ar y cof ystod dda o rigymau rhif, caneuon a gemau cyfrif. Yn ystod tasg benodol, maent yn dewis cerdyn rhif, yn enwi'r rhif ac yna'n gosod y cerdyn yn ei leoliad cywir.
- 166 Mae'r plant derbyn yn paru rhifau, lliw a phatrwm yn gywir wrth chwarae'r gêm rhif. Defnyddiant TGCh yn effeithiol iawn i gyfatebu rhifau yn fedrus ac i reoli cyfarwyddiadau.
- 167 Mae dealltwriaeth plant meithrin a derbyn o werth arian yn datblygu'n dda. Dânt i adnabod siapiau a mesuriadau ansafonol wrth ymgymryd â gweithgareddau ymarferol.

Diffygion

- 168 Nid oes diffygion pwysig.

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Meithrin a Derbyn: Gradd 1 – Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

- 169 Mae gallu plant meithrin a derbyn i drafod eu hamgylchedd, teuluoedd a digwyddiadau yn y gorffennol mewn modd hyderus a synhwyrol yn nodwedd ragorol. Wrth iddynt olchi dillad yn y dull hen-ffasiwn, maent yn ail- fyw'r gorffennol yn effeithiol iawn. Erbyn y dosbarth derbyn, mae'r plant yn gwneud cymariaethau manwl iawn rhwng dulliau golchi dillad ddoe a heddiw.
- 170 Mae gallu'r plant meithrin a derbyn i wneud arsylwadau manwl ac i siarad yn estynedig am yr hyn a welant a gofyn cwestiynau treiddgar, yn nodwedd ragorol.

Nodweddion da

- 171 Mae'r plant meithrin a derbyn yn casglu gwybodaeth yn effeithiol o amrywiaeth o ffynonellau sy'n cymwys sgwrsio, sylwi ar luniau mewn llyfrau neu drwy ddefnyddio TGCh.
- 172 Wrth ddefnyddio fflach lamp i greu cysgodion yn yr ogof mae'r iaith lafar wyddonol a ddefnyddir gan y plant yn hynod o dda.
- 173 Mae dealltwriaeth plant o gylch bywyd broga yn arbennig o dda. Maent yn enwi gwahanol rannau o'r cylch ac yn deall cyd-ddibyniaeth un rhan ar y llall.

Diffygion

- 174 Nid oes diffygion pwysig.

Datblygiad Creadigol

Meithrin a Derbyn: Gradd 1 – Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

- 175 Mae datblygiad medrau cerddorol plant meithrin a derbyn yn nodwedd ragorol.
- 176 Wrth wrando ar gerddoriaeth glasuroil naill ai yn y dosbarth neu yn y cwt cerddoriaeth y tu allan, mae'r plant yn gwrando'n astud ac yn cynnig sylwadau treiddgar a deallus iawn ar y gerddoriaeth.

177 Defnyddia'r plant derbyn ystod o offerynnau er mwyn creu cerddoriaeth eu hunain. Rhoddant sylw da i ddeinameg wrth berfformio gyda'i gilydd ac maent yn gwerthuso perfformiadau ei gilydd yn ofalus.

178 Mae gallu plant meithrin a derbyn i ddefnyddio ystod o offer TGCh i bwrpasau penodol yn nodwedd ragorol. Maent yn ddefnyddwyr hynod o hyderus wrth ddefnyddio'r offer ac yn gweithio gyda lefel uchel iawn o annibyniaeth.

Nodweddion da

179 Mae'r plant meithrin a derbyn yn hyderus iawn wrth arbrofi gyda swigod ac yn gwneud arsylwadau manwl cyn mynd ati i greu efelychiadau â phaent. Creant fodel clai diddrol o hoff gymeriad ac arddangosant werthfawrogiad da o waith plant eraill.

180 Wrth chwarae rôl y tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth, mae'r plant yn llwyr ymgolli yng nghymeriadau'r stori dan sylw gan efelychu gwaith ac iaith y cymeriad dan sylw mewn ffordd ddychmygus iawn.

Diffygion

181 Nid oes diffygion pwysig.

Datblygiad Corfforol

Meithrin a Derbyn: Gradd 1 – Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

182 Wrth greu syrcau 'gwlad y rwla' defnyddia'r plant meithrin a derbyn feinciau, cylchoedd a matiau yn fedrus iawn i gydbwyso, dringo, hopian, a cherdded. Symudant yn hyderus iawn ar yr offer gyda rheolaeth a chydlynid cynyddol. Mae'r rhain yn nodweddion rhagorol.

183 Mae plant o bob oedran yn arddangos medrau pedlo a llywio rhagorol wrth ddefnyddio'r ardal tu allan.

Nodweddion da

184 Defnyddia'r plant flociau adeiladu mawr i greu tŷ i'r Llipryn Llwyd yn gelfydd iawn. Maent yn esbonio eu bwriadau yn glir iawn.

185 Mae'r plant meithrin a derbyn yn trin cyfarpar bach megis pensiliau, brwsys paent, offer torri a siapio clai, gyda rheolaeth gynyddol.

Saesneg

Cyfnod allweddol 2: Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

186 Mae'r disgyblion yn gwranddo'n astud ar gyflwyniadau o fewn y gwersi ac yn cymryd rhan mewn trafodaethau dosbarth yn hyderus. Erbyn B5, maent yn arddangos sgiliau cyfathrebu â chynulleidfa dda iawn ac yn cyflwyno gwybodaeth yn glir a hyderus. Maent yn gwerthuso eu cyfraniadau eu hunain ac eraill yn effeithiol.

187 Mae safonau darllen yn dda ar draws y cyfnod allweddol. Mae disgyblion yn trafod cynnwys a chymeriadau llyfr mewn manylder ac yn mynegi barn glir am y llyfrau a ddarllenant, boed yn llyfrau ffuglen neu ffeithiol.

- 188 Mae'r disgyblion yn cynhyrchu amrywiaeth dda o waith ysgrifenedig sy'n cynnwys darnau disgrifiadol, adolygiadau o waith awduron a astudiwyd, cerddi, deialog, llythyr/ e-bost, yn ogystal â chofnodion ffeithiol i rannu gwybodaeth. Mae eu gallu i amrywio brawddegau, i baragraffu ac i greu gwahanol effeithiau yn gyffredinol dda. Erbyn B5, mae sillafu, geirfa a mynegiant mwyafrif helaeth y disgyblion yn dda.
- 189 Mae safonau llawysgrifen yn dda trwy gydol y cyfnod allweddol.

Diffygion

- 190 Er nad oes diffygion pwysig, braidd yn seinegol yw'r sillafu ar brydiau ac mae safon cyflwyniad gwaith yn anghyson.

Gwyddoniaeth

Cyfnod allweddol 1: Gradd 2 – Nodweddion da dim diffygion pwysig

Cyfnod allweddol 2: Gradd 1 – Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

- 191 Mae gallu disgyblion cyfnod allweddol 2 i gynllunio, trefnu a chynnal ymholiad gwyddonol yn nodwedd ragorol. Mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr iawn o ofynion prawf teg ac wrth gynnal ymholiad, gweithiant mewn ffordd systematig gan wneud cyfres o arsylwadau a mesuriadau hynod o fanwl. Deallant yn dda pa ffactorau allai amharu ar ganlyniadau ymchwiliad ac ar gyfer goresgyn hynny, byddant yn ail-adrodd eu hymchwiliad fel mater o drefn.
- 192 Mae gallu disgyblion B5 a B6 i ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth wyddonol er mwyn llunio cyffredinoliadau a cheisio egluro canlyniadau ymchwiliad yn nodwedd ragorol.
- 193 Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn defnyddio nifer helaeth iawn o fesuriadau manwl cywir ac offer TGCh yn fedrus iawn er mwyn cael canlyniadau dibynadwy.
- 194 Mae gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion B3 a B4 o gydrannau cylched drydan yn rhagorol.

Nodweddion da

- 195 Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn dod o hyd i wybodaeth wyddonol o nifer o ffynonellau a'i ddefnyddio'n effeithiol i ymestyn eu dealltwriaeth o'r maes. Maent yn trafod eu gwaith yn hyderus gan arddangos meistrolaeth dda o'r eirfa wyddonol briodol.
- 196 Yng nghyfnod allweddol 1, mae disgyblion yn ymwneud â nifer dda o weithgareddau gwyddonol ac yn aml yn awgrymu syniadau eu hunain ynglŷn â sut i gynnal ymholiad. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o nodweddion prawf teg a gwnânt ragfynegiadau synhwyrol o'r canlyniadau posib. Gwnânt arsylwadau uniongyrchol manwl a chofnodant ganlyniadau eu hymholiadau mewn tablau a graffiau syml. Erbyn B2, mae nifer dda o'r disgyblion yn defnyddio mesurau safonol gyda manwl gywirdeb ac yn gallu cynnig eglurhad syml am yr hyn yr arsylwyd arno yn ystod eu hymholiadau.
- 197 Mae gwybodaeth a dealltwriaeth wyddonol disgyblion cyfnod allweddol 1 o ddeunyddiau a'u priodweddau yn dda. Maent yn dosbarthu deunyddiau yn ôl meini prawf penodol gan arddangos dealltwriaeth dda o sut y cânt eu defnyddio

i wahanol ddibenion. Gwyddant am gylch bywyd broga ac am yr amodau amgylcheddol sydd ei hangen er mwyn i fodau dynol ac anifeiliaid ffynnu.

- 198 Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn arddangos gwybodaeth gadarn am nifer o agweddau ar y byd naturiol a dealltwriaeth dda am ymddygiad planhigion ac anifeiliaid. Gwyddant yn dda am briodweddau llawer o ddeunyddiau cyfarwydd gan ddisgrifio mewn manylder sut y gellir eu newid.

Diffygion

- 199 Nid oes diffygion pwysig.

Technoleg Gwybodaeth

Cyfnod allweddol 1: Gradd 1 – Da gyda nodweddion rhagorol

Cyfnod allweddol 2: Gradd 1 – Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

- 200 Mae disgyblion y ddau gyfnod allweddol yn cyfathrebu eu syniadau mewn nifer helaeth iawn o ffurfiau gan ddefnyddio amrediad eang o offer a meddalwedd technoleg gwybodaeth gyda gradd uchel iawn o fedrusrwydd ac annibyniaeth. Mae hon yn nodwedd ragorol.
- 201 Mae gallu disgyblion cyfnod allweddol 1 i chwilio am wybodaeth oddi ar y We a'i lawr-lwytho yn annibynnol i'w ffeiliau personol yn nodwedd ragorol.
- 202 Dengys disgyblion cyfnod allweddol 2 feistrolaeth ragorol o brosesydd geiriau a defnyddiant amrywiaeth eang o offer er mwyn gosod, golygu a chreu effaith. Maent yn fedrus wrth symud testun o un ddogfen i'r llall ac wrth ddarparu cyflwyniadau amlgyfrwng.
- 203 Mae gallu disgyblion cyfnod allweddol 2 i greu taenlenni ac i ddefnyddio fformiwlâu adio a thynnu i bwrpasau penodol yn nodwedd ragorol.

Nodweddion da

- 204 Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn hyderus iawn wrth ddefnyddio llygoden i symud delweddau ar y sgrin. Mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o elfennol o reoli symudiad trwy fwydo cyfarwyddiadau ar y sgrin ac i degan llawr.
- 205 Yng nghyfnod allweddol 1, mae'r disgyblion yn llunio darnau o waith ysgrifenedig yn effeithiol ar y sgrin gan addasu'r testun yn ôl y gofyn. Maent yn arbed gwaith, ei adfer a'i addasu cyn ei argraffu gydag ond ychydig o gymorth. Defnyddiant becynnau arlunio yn effeithiol i greu lluniau a phatrymau sy'n gysylltiedig â'u gwaith a gallant fwydo gwybodaeth i gronfa ddata parod a'i gynrychioli ar ffurf graff.
- 206 Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn hyderus wrth chwilio am safweoedd ar y we ac anfon negeseuon trwy e-bost.

Diffygion

- 207 Nid oes diffygion pwysig.

Hanes

Cyfnod allweddol 1: Gradd 2 – Nodweddion da dim diffygion pwysig Cyfnod allweddol 2: Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

- 208 Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn datblygu synnwyr cronoleg da. Maent yn gosod digwyddiadau yn eu trefn gyda chywirdeb rhesymol a gwnânt ddefnydd effeithiol o arteffactau megis hen deganau er mwyn didoli'r hen a'r newydd. Defnyddiant amrediad da o linellau amser yn effeithiol er mwyn cofnodi treigl amser.
- 209 Mae gallu disgyblion cyfnod allweddol 1 i ddefnyddio tystiolaeth hanesyddol megis lluniau a chreiriau yn gyffredinol dda.
- 210 Yn dilyn ymweliadau ac astudiaethau manwl o wahanol ffynonellau, mae gwybodaeth disgyblion B2 o fywyd yn Oes Fictoria yn dda. Trafodant waith ac amodau byw morynion a gweision y plas yn wybodus iawn gan gywain gwybodaeth o amrediad eang o ffynonellau. Trwy chwarae rôl, uniaethant yn dda gyda ffyrdd o fyw gweision a morynion yn Oes Fictoria a gwnânt gymariaethau dilys rhwng amodau byw'r oes honno a heddiw. Defnyddiant ystod dda o eirfa hanesyddol ymestynnol a dulliau o gofnodi wrth egluro a disgrifio digwyddiadau yn y gorffennol.
- 211 Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn dwyn i gof dysgu blaenorol yn effeithiol iawn. Gwnânt ddefnydd effeithiol o ystod o linellau amser gan arddangos ymwybyddiaeth dda o brif gyfnodau hanesyddol.
- 212 Mae sgiliau ymholi hanesyddol disgyblion CA2 yn dda. Defnyddiant ystod eang iawn o ffynonellau i ddod o hyd i dystiolaeth sydd yn eu cynorthwyo i ofyn ac ateb cwestiynau am y gorffennol. Gwnaed defnydd effeithiol a diddorol o ddata cyfrifiadau 1891 ac 1951 ac o hen fapiau er mwyn darganfod pa newidiadau fu ym mhentref Edern rhwng y ddau ddyddiad. Mae'r disgyblion yn gwahaniaethu'n briodol rhwng ffaith a barn gan ddeall y gwahaniaeth rhwng ffynonellau gwreiddiol ac eilradd.
- 213 Mae gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2 wybodaeth dda o amodau byw yn ystod y Pla Du. Eglurant mewn manylder sut y bu i arferion bwyta pobl y cyfnod ynghyd â safonau hylendid gyfrannu at ledaeniad y pla. Cynhyrchwyd gwaith ysgrifenedig hynod o ddiddorol wrth i'r disgyblion geisio efelychu dyddiadur Pepys.
- 214 Gwna disgyblion y ddau gyfnod allweddol ddefnydd effeithiol iawn o'u sgiliau trawsieithu wrth gywain a chofnodi gwybodaeth o ffynonellau Saesneg.

Diffygion

- 215 Nid oes diffygion pwysig.

Celf

Cyfnod allweddol 1: Gradd 1 – Da gyda nodweddion rhagorol

Cyfnod allweddol 2: Gradd 1 – Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

- 216 Yng nghyfnod allweddol 1, mae'r disgyblion yn arddangos safonau rhagorol wrth werthfawrogi ac ymchwilio i wahanol fathau o gelf a welir yn yr amgylchedd lleol.
- 217 Mae'r safon y gwaith a gynhyrchwyd gan ddisgyblion B5 a B6 wrth iddynt efelychu arddull Lowry a gwahanol gyfryngau yn rhagorol.
- 218 Dengys disgyblion cyfnodau allweddol 1 a 2 safonau rhagorol wrth arsylwi'n fanwl ar linell a thôn. Maent yn trafod ac yn esbonio eu gwaith eu hunain a gwaith eraill mewn manylder.
- 219 Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn arbrofi'n hynod o effeithiol gyda llinell, tôn, patrwm, gwead a ffurf. Mae eu llyfrau braslunio yn arddangos sgiliau cofnodi, arbrofi ac arsylwi rhagorol.
- 220 Mae gallu disgyblion B5 a B6 i ymateb yn ddychmygus ac aeddfed i waith haniaethol yn rhagorol.

Nodweddion da

- 221 Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn datblygu ymwybyddiaeth dda o dechnegau celfyddydol megis cymysgu lliwiau. Ymchwiliant i batrymau yn effeithiol a defnyddiant frwsys o amrywiol feintiau a darnau amrywiol o 'sbwng' i greu gwahanol effeithiau yn gelfydd.
- 222 Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn arbrofi'n llwyddiannus gyda thechnegau amrywiol wrth iddynt lunio 'collage' gan roi sylw da i liw a gwead.
- 223 Mae safonau gwaith disgyblion y ddau gyfnod allweddol yn dda wrth iddynt astudio ac efelychu gwaith arlunwyr enwog megis Monet a Renoir.

Diffygion

- 224 Nid oes diffygion pwysig.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Mae'r llywodraethwyr, staff a'r disgyblion yn falch fod yr arolygwyr yn cytuno fod Ysgol Gynradd Edern yn ysgol dda gyda safonau uchel a nifer fawr o ragoriaethau.

Rydym yn ymfalchïo fod safonau cyflawniad y disgyblion, eu hymddygiad ac yn arbennig eu gwerthoedd wedi eu hamlygu drwy'r adroddiad.

Braf yw gweld hefyd fod y berthynas waith gofalgar, hapus, llawn parch rhwng y staff a'r disgyblion yn cael ei nodi fel rhinwedd.

Mewn cyfnod o newid yn ddiweddar i'r staff dysgu rydym yn falch iawn fod safonau uchel yr ysgol wedi eu cadw a bod canran mor uchel o'r addysgu yn dangos rhagoriaeth.

Bydd argymhellion yr arolygwyr yn cael llawn sylw drwy gynllun datblygu'r ysgol.

Hoffai'r ysgol ddiolch i'r tîm arolygu am eu proffesiynoldeb a'u tegwch cyn ac yn ystod yr arolygiad.

Atodiad 1

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Gynradd Edern
Math o ysgol	Meithrin a Chynradd
Ystod oedran y disgyblion	3-11
Cyfeiriad yr ysgol	Ffordd y Rhos Edern Pwllheli Gwynedd
Cod post	LL53 8YW
Rhif ffôn	01758 720272

Pennaeth	Mr Geraint Evans
Dyddiad penodi	Ionawr 2008
Cadeirydd y llywodraethwyr	Mrs Liz Saville Roberts
Arolygydd cofrestredig	Wil Williams
Dyddiadau'r arolygiad	26 – 30 Ebrill 2008

Atodiad 2

Data a dangosyddion ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	7	7	7	6	6	9	6	11	59

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyferwerth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	2	1	2.6

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	19.6:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin	7:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	D/B
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	17
Cymhareb athro (call): dosbarth	0.87:1

Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad			
Tymor	M	D	Gweddill yr ysgol
Haf 2007	96%	91%	92%
Hydref 2007	91%	95%	94%
Gwanwyn 2008	93%	95%	95%

Canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim	18%
Nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	0

Atodiad 3

Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol Diwedd cyfnod allweddol 1:

Canlyniadau Aseidiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2007	Nifer y disgyblion yn B2	6
Gan fod nifer y disgyblion a oedd yn gymwys am aseiad ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 yn fwy na phedwar ond yn llai na 10, dim ond dangosyddion perfformiad cyffredinol a gynhwysir.		

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 2 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) yn ôl aseiad athro			
Yn yr ysgol	66.7%	Yng Nghymru	80.1%

Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol Diwedd cyfnod allweddol 2:

Canlyniadau Aseidiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2007			Nifer y disgyblion yn B6							10
Canran y disgyblion ar bob lefel										
			D	A	W	1	2	3	4	5
Saesneg	Aseiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	10	40	50
		Cenedlaethol	0	0	0	1	4	16	50	29
Cymraeg	Aseiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	10	20	70
		Cenedlaethol	1	1	1	1	5	19	49	24
Mathemateg	Aseiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	30	20	50
		Cenedlaethol	0	0	0	1	3	15	50	30
Gwyddoniaeth	Aseiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	30	70
		Cenedlaethol	0	0	0	0	2	12	53	32

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 4 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf)			
Yn yr ysgol	70	Yng Nghymru	74.1

D Disgyblion a eithrir dan drefniadau statudol o ran o'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu'r cyfan ohono
A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

Atodiad 4

Sail dystiolaeth yr arolygiad

Treuliodd tri arolygydd gyfanswm o chwe diwrnod arolygu yn yr ysgol, a chyfarfod fel tîm cyn yr arolygiad.

Ymwelodd yr arolygwyr hyn â:

- 16 o wersi neu rannau o wersi gan wrando ar ddisgyblion yn darllen yn y ddwy iaith;
- phob dosbarth;
- chyfnodau addoli ar y cyd.

Cafodd aelodau o'r tîm arolygu gyfarfodydd gyda:

- staff, llywodraethwyr a rhieni cyn i'r arolygiad ddechrau;
- phennaeth, athrawon, staff cymorth a grwpiau o ddisgyblion yn ystod yr arolygiad.

Bu'r tîm hefyd yn ystyried:

- adroddiad hunan-arfarnu'r ysgol;
- 12 o ymatebion i holiadur rhieni;
- dogfennaeth gynhwysfawr a ddarparwyd gan yr ysgol cyn ac yn ystod yr arolygiad; ac
- ystod eang o waith blaenorol a chyfredol disgyblion.

Cynhaliodd y tîm arolygu gyfarfodydd gyda'r staff a'r llywodraethwyr ar ôl yr arolygiad.

Atodiad 5

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Aelod tîm	Cyfrifoldebau
Wil Williams Arolygydd Cofrestredig	Cyd-destun; Crynodeb, Argymhellion; Atodiadau Cwestiynau allweddol 1, 5, 6 a 7 Gwyddoniaeth, technoleg gwybodaeth a hanes
Iola Owen Aelod tîm	Cwestiynau allweddol 2, 3 a 4 Plant dan bump, Saesneg a chelf
Wil Owen Arolygydd llyg	Cyfrannu at gwestiynau allweddol 1, 3, 4 a 7
Geraint Evans Enwebai	Darparu gwybodaeth Cyfraniad i bob cwestiwn allweddol

Cydnabyddiaeth

Hoffai'r tîm arolygu ddiolch i'r llywodraethwyr, y pennaeth, staff, disgyblion a rhieni am eu cydweithrediad parod trwy gydol yr arolygiad.

Contractwr:

EPPC/Severn Crossing Cyf
Swit H
Tŷ Britannic
Llandarsi
Castell-nedd
SA10 6JQ